

A yw ystadau'r GLG yn addas ar gyfer y diben?

Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Gorffennaf 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3)(b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei aildddefnyddio, rhaid i chi ei aildddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei aildddefnyddio.

Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwiliad	4
Ffeithiau a ffigyrau allweddol.	7
Ein canfyddiadau.	8
Argymhellion.	24
Atodiadau	26
1 Ynglŷn â'n gwaith	27
2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn	30
3 Ymateb y rheolwyr	32

Ciplun archwiliad

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

- 1 Fe wnaeth ein hadolygiad ystyried pa mor dda y mae Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) yn rheoli ei ystâd.

Pam fod hyn yn bwysig

- 2 Mae Ystâd y GIG yng Nghymru'n darparu'r seilwaith hanfodol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae ganddi rôl allweddol o ran rhoi gofal diogel o ansawdd da. Fodd bynnag, mae ystâd y GIG yn amrywio'n eang o ran oedran, cyflwr a lleoliad ledled Cymru. Mae ystâd sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n wael yn creu risgiau i iechyd a diogelwch, gan gynnwys materion diogelwch tân a niwed posibl. Gall ystâd sydd wedi mynd yn hen effeithio ar berfformiad gwasanaethau, defnyddio ynni'n llai effeithlon a bod yn rhwystro i roi gofal iechyd modern hefyd.
- 3 Mae angen i'r GIG yng Nghymru foderneiddio ei ystâd, cyflawni gwelliannau amgylcheddol, gwella mynediad ac addasu i ddiwallu anghenion gofal iechyd modern. Ceir nifer o strategaethau a chynlluniau yn y GIG sy'n ddibynnol ar welliannau i'r ystâd. Mae'r rhain yn amrywio o flaenoriaethau strategol uniongyrchol sy'n ymwneud â buddsoddi mewn seilwaith a buddsoddi cyfalaf, i'r gofynion i leihau allyriadau carbon a gwella effeithlonrwydd ynni.
- 4 Fe wnaeth y cynllun hirdymor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018 ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol – [Cymru Iachach](#) – amlygu pwysigrwydd ystâd y GIG fel galluogwr allweddol ar gyfer trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys yr angen am gyfleusterau modern, cefnogi integreiddio digidol a ffocws ar effeithlonrwydd ynni ac arferion eco-gyfeillgar. Mae hyn i gyd yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol sylweddol ar draws y GIG yng Nghymru

Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

- 5 Mae gan IGDC weledigaeth eglur ar gyfer ei ystâd a chynllun ystadau cryf sy'n ategu ei nodau ehangach. Mae wedi gwneud cynnydd da o ran lleihau ei ystâd a'i defnyddio'n well, gan hefyd ategu anghenion o ran trefniadau gweithio hybrid, cynaliadwyedd a darparu gwasanaethau. Mae trefniadau llywodraethu'n eglur ac yn gymesur â maint y sefydliad, gyda goruchwyliaeth effeithiol gan y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a grwpiau gweithrediadol. Fodd bynnag, byddai o fudd pe bai'r cynllun ystadau'n cynnwys targedau a cherrig milltir mwy eglur ac yn seiliedig ar gynllunio ariannol cryfach.
- 6 Mae IGDC yn rheoli ei ystâd yn dda ac yn gweithredu o adeiladau sy'n ddiogel, yn cael eu defnyddio'n helaeth ac mewn cyflwr da fel rheol. Mae'n perfformio'n gryf yn erbyn meincnodau cenedlaethol ar gyfer defnyddio lle, addasrwydd swyddogaethol a chydymffurfio statudol. Mae'r sefydliad hefyd wedi lleihau ôl troed ei ystâd trwy roi terfyn ar lesuedd ar adeiladau gwag. Er ei fod yn casglu ystod o ddata ar ei ystâd, fe allai ddefnyddio'r wybodaeth hon yn well i ategu penderfyniadau buddsoddi, gwella'r modd y cynllunnir lle ac ysgogi gwelliant parhaus.
- 7 Mae gan IGDC drefniadau cadarn i reoli cydymffurfiaeth a diogelwch yr ystâd. Mae digwyddiadau ar yr ystâd yn isel; mae perfformiad cydymffurfio'n gryf ac fe ymdrinnir yn brydlon â materion a adnabyddir. Mae'r tîm ystadau'n sefydlog, yn cael ei gefnogi'n dda ac wedi'i hyfforddi'n briodol. Fodd bynnag, nid yw risgiau o ran yr ystâd wastad yn weladwy mewn adroddiadau am risgiau corfforaethol. Byddai cofrestr risgiau gweithrediadol ffurfiol ar gyfer ystadau'n cryfhau'r modd y rheolir risgiau ac yn helpu i gynnal gwydnwch yn y tîm ystadau bach.

Yr hyn yr ydym yn ei argymhell

- 8 Rydym wedi llunio chwe argymhelliad ar gyfer IGDC. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:
 - cryfhau'r cynllun ystadau;
 - ffurfioli trefniadau rheoli risg ar gyfer ystadau;

- datblygu meini prawf blaenoriaethu ar gyfer defnyddio arian cyfalaf;
- cryfhau'r modd y mae'n monitro gwariant ar ystadau;
- casglu adborth defnyddwyr; a hefyd
- datblygu cynllun olyniaeth ar gyfer ystadau.

Ffeithiau a ffigyrau allweddol

5

Nifer yr adeiladau a oedd yn cael eu rheoli gan IGDC yn 2024-25.

**£0.83
miliwn**

Arian cyfalaf a ddefnyddiwyd i wella ystadau yn 2025-26 (heb gynnwys cyllid ar ddiwedd y flwyddyn).

80%

Y ganran o'r 25 o faterion yr ymdriniwyd â hwy yn dilyn asesiadau diogelwch tân yn 2024-25 ar ddiwedd mis Medi 2025.

7

Nifer y digwyddiadau iechyd a diogelwch a oedd yn gysylltiedig ag ystadau yn 2024-25.

0.31%

Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch ar ddiwedd mis Mawrth 2025, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan o 6.0%.

Ein canfyddiadau

Dull strategol o ymdrin ag ystadau

Mae gan IGDC weledigaeth eglur ac wedi'i halinio'n dda ar gyfer ei ystadau, ond mae bylchau mewn cynllunio ariannol a monitro perfformiad yn lleihau effeithiolrwydd yn hynny o beth

- 10 Mae IGDC wedi nodi gweledigaeth eglur ar gyfer ei ystâd.
- 11 Ym mis Mawrth 2025, fe gymeradwyodd y Bwrdd gynllun ystadau tair blynedd newydd. Roedd yn adeiladu ar gyflawni cynllun 2022-25 yn llwyddiannus, a hwnnw wedi adolygu lleoliadau, gofynion o ran lle ac addasrwydd mangreoedd presennol.
- 12 Mae cynllun ystadau 2025-28 yn canolbwyntio ar ddefnyddio lle'n fwy effeithlon. Mae'n cynnwys newidiadau i gynlluniau swyddfeydd ac archwilio'r potensial i rannu lle gyda sefydliadau eraill y GIG. Mae IGDC yn amcanu at gadw ystâd fach, hyblyg, seiliedig-ar-lesoedd sy'n ategu ei rôl fel sefydliad digidol cenedlaethol.
- 13 Yn gadarnhaol mae'r cynllun:
 - yn tynnu ar ddata dibynadwy;
 - yn cwmpasu'r holl ystâd y mae IGDC yn gyfrifol amdani;
 - yn adlewyrchu cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid;
 - yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol ehangach y sefydliad, gan gynnwys ei fodel darparu gwasanaethau digidol a threfniadau gweithio hybrid;
 - yn cefnogi strategaethau galluogi eraill, yn enwedig amcanion trawsnewid digidol ac o ran hyblygrwydd y gweithlu;

- yn adlewyrchu ymrwymïadau i gynaliadwyedd ac effeithlonrwydd, gan gynnwys gwelliannau i seilwaith a pherfformiad ynni; ac
- yn cydnabod yr angen i resymoli ac optimeiddio'r ystâd ac yn darparu tystiolaeth o gynnydd diweddar.

14 Fodd bynnag, nid yw'r cynllun:

- yn cynnwys cerrig milltir, targedau na mesurau perfformiad wedi'u diffinio'n glir i optimeiddio'r ystâd;
- yn cael ei danategu gan gynllun ariannol sydd wedi'i feintio'n llawn ac yn fforddiadwy, gyda chysylltiadau cyfyngedig rhwng uchelgais strategol a'r cyllid cyfalaf sydd ar gael;
- yn nodi rhaglen eglur ac wedi'i blaenoriaethu o weithgareddau buddsoddi a rhesymoli; ac
- yn integreiddio gwaith cynllunio ystadau'n llawn â gwaith cynllunio ar gyfer risg a gwydnwch.

15 Nid yw'n glir ychwaith sut yr ymgysylltwyd â staff a phartnerïaid allanol wrth ddatblygu'r cynllun ystadau.

Trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli ystadau

Mae gan IGDC drefniadau llywodraethu, atebolrwydd a goruchwyliaeth eglur ar gyfer ei ystâd. Mae trefniadau rheoli risg yn gadarn fel rheol ond gallai risgiau o ran yr ystâd gael eu tracio'n fwy ffurfiol a gweladwy

Llinellau atebolrwydd

- 16 Mae gan IGDC linellau atebolrwydd eglur ar gyfer rheoli ystâd o'r maint sydd ganddo.
- 17 Y Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd sydd â chyfrifoldeb gweithredol ar y cyfan ar gyfer ystadau. Mae'r dull hwn yn gweddu i ystâd IGDC, sy'n fach ac i gyd ar les.

Goruchwyliaeth gorfforaethol

- 18 Ceir goruchwyliaeth eglur ar ystadau ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau.
- 19 Mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth am ystadau trwy ystod o ffynonellau, yn hytrach na thrwy bapur unigol. Mae materion o ran ystadau'n cael eu cynnwys mewn adroddiadau risg, papurau cynllunio a materion a gaiff eu huwchgyfeirio o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.
- 20 Cyn cymeradwyo'r cynllun ystadau ym mis Mai 2025, fe gynhaliodd y Bwrdd sesiwn ddatblygu ar y cynllun ystadau. Fe wnaeth y sesiwn ystyried rhesymoli'r ystâd, ei datgarboneiddio a sut y mae'r cynllun yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru ar le anghlinigol. Fe drafododd y Bwrdd hefyd sut i daro cydbwysedd rhwng defnyddio lle'n effeithlon ar y naill law a diwylliant sefydliadol ar y llaw arall.
- 21 Bydd y Bwrdd yn cael datganiad data ystadau cenedlaethol 2025-26 ym mis Gorffennaf 2026. Bydd adolygu'r datganiad yn cryfhau ei oruchwyliaeth ar risgiau sy'n ymwneud â'i ystadau. Bydd aelodau'n gallu craffu ar faterion, megis gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, a herio sut y mae'r rheolwyr yn ymateb.

- 22 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd hefyd yn goruchwyllo materion sy'n ymwneud â'r ystâd trwy Adroddiad Ystadau, Datgarboneiddio a Chydymffurfio chwarterol.
- 23 Ym mis Ionawr 2026, roedd yr adroddiad yn cynnwys cydymffurfio statudol (tân, dŵr ac asbestos). Roedd hefyd yn cynnwys gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio, perfformiad amgylcheddol a chynnydd o ran datgarboneiddio. Os yw perfformiad yn syrthio islaw 95%, mae'r Pwyllgor yn uwchgyfeirio'r mater at y Bwrdd. Er bod perfformiad wedi amrywio ychydig, mae wedi aros uwchlaw'r lefel darged.

Rheoli gweithrediadol

- 24 Ceir strwythur gweithrediadol eglur ar gyfer rheoli ei ystadau.
- 25 Y Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd sy'n rheoli ystadau, gan gael cymorth y Pennaeth Ystadau a Chydymffurfio. Mae gan IGDC hefyd Arweinydd Prosiectau Gweithrediadol a Chydymffurfio, yr Hwylusydd Datblygu Amgylcheddol a Chydymffurfiaeth Ystadau a nifer o swyddogion ystadau.
- 26 Mae'r Grŵp Datblygu Ystadau'n cwrdd yn fisol ac yn darparu goruchwyliaeth weithrediadol. Y Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd sy'n cadeirio'r grŵp. Mae'r grŵp yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o swyddogaethau allweddol, gan gynnwys ystadau, cyllid, gweithrediadau, llywodraethu a gwasanaethau digidol.
- 27 Mae'r Grŵp yn rheoli materion ystadau o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio lle, cynllunio lleoliadau gwaith, datblygu'r ystâd, anghenion o ran hygyrchedd a niwroamrywiaeth, cyflwyno offer, gofynion o ran adeiladau ac ystafelloedd a rheoli lesioedd. Mae'r Grŵp yn codi materion trwy'r strwythur llywodraethu priodol pan fo angen.
- 28 Ceir grwpiau llywodraethu eraill hefyd i roi cymorth i reoli'r ystâd. Mae'r rhain yn cynnwys Grŵp Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd, Grŵp Ystadau a Chydymffurfio a Grŵp Diogelwch Dŵr a gefnogir gan arbenigwyr allanol.
- 29 Mae'r grwpiau hyn yn uwchgyfeirio materion at y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a, lle y bo angen, at y Bwrdd.

Rheoli risgiau sy'n ymwneud â'r ystâd

- 30 Mae gan IGDC brosesau rhesymol ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n ymwneud â'i ystâd.
- 31 Mae IGDC yn rheoli risgiau sy'n ymwneud â'i ystâd trwy ei brif systemau risg, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Nid yw Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cynnwys unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig ag ystadau ar hyn o bryd. Mae hyn yn adlewyrchu'r sicrwydd cadarnhaol yr adroddwyd arno yn yr Adroddiad Ystadau, Datgarboneiddio a Chydymffurfio.
- 32 Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn canolbwyntio ar risgiau ar draws y sefydliad cyfan a risgiau digidol. Nid yw'n cynnwys rhyw lawer o risgiau sy'n ymwneud yn benodol â'r ystâd, ar wahân i'r rhai sy'n gysylltiedig â seilwaith a gwydnwch. Gallai hyn fod yn adlewyrchiad o natur ystâd IGDC. Fodd bynnag, mae'n golygu bod risgiau sy'n ymwneud â'r ystâd megis cydymffurfio statudol, gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni ac effaith ar wasanaethau'n llai gweladwy.
- 33 Dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd adolygu'r sefyllfa hon o bryd i'w gilydd. Dylai gadarnhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd yn dal i gael eu rheoli'n dda a phenderfynu a ddylai unrhyw rai gael eu hadlewyrchu yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â gwydnwch adeiladau ac ystafelloedd, dibyniaeth ar landlordiaid, newid hinsawdd a chydymffurfio â'r gyfraith.
- 34 Nid oes gan IGDC gofrestr risgiau gweithrediadol a neilltuwyd i ystadau, sy'n cysylltu risgiau gweithrediadol â risgiau corfforaethol. Gallai hyn fod yn adlewyrchiad o berfformiad cydymffurfio cryf. Fodd bynnag, byddai o fudd i'r Grŵp Datblygu Ystadau pe bai'n mabwysiadu dull rheoli risgiau ffurfiol. Dylai'r Grŵp gynnal adolygiadau rheolaidd i sicrhau ei fod yn casglu gwybodaeth am yr holl risgiau ac yn ymdrin â hwy.

Defnyddio adnoddau ariannol i wella ystadau

Mae IGDC yn rheoli ei gyllid cyfalaf cyfyngedig ar gyfer ystadau’n effeithiol ond byddai dogfennu’r broses flaenoriaethu a chryfhau monitro ar lefel cynlluniau’n gwella tryloywder a goruchwyliaeth

Y broses blaenoriaethu cyllid

- 35 Mae gan IGDC ddull priodol o ran sut y mae’n blaenoriaethu’r cronfeydd cyfalaf sydd ar gael i wella ei ystâd.
- 36 Yn 2025-26, fe ddyrannodd IGDC £0.83 miliwn o gyllid dewisol i’w fuddsoddi yn ei ystâd. Mae hyn ychydig yn is nag yn 2024-25, er na threfnwyd fod unrhyw arian dewisol ar gael ar gyfer ystadau yn 2023-24 (**Arddangosyn 1**). Oherwydd natur a chyflwr ei ystâd, nid yw IGDC wedi cael unrhyw gyllid cyfalaf Cymru gyfan ar gyfer ystadau.

Arddangosyn 1: defnyddio cronfeydd dewisol ac wedi’u neilltuo’n benodol ar gyfer ystadau yn 2023-24, 2024-25 a 2025-26 (£ miliwn)

Cronfa	2023-24	2024-25	2025-26
Dyraniad cyfalaf dewisol	0	0.96	0.83
Bwrdd Cyngori ar Ystadau a Chyfleusterau (EFAB) neu’r Gronfa Ystadau wedi’i Thargedu (TEF) ¹	0	0	0
CYFANSWM	0	0.96	0.83

¹ Rhaglen o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru sydd wedi’i bwriadu i ymdrin â risgiau a diffygion penodol y rhoddir blaenoriaeth uchel iddynt yn ystâd GIG Cymru, yn enwedig y rhai sy’n effeithio ar ddiogelwch cleifion, cydymffurfio statudol a gwydnwch gwasanaethau. Fe wnaeth y Gronfa Ystadau wedi’i Thargedu (TEF) ddisodli cyllid y Bwrdd Cyngori ar Ystadau a Chyfleusterau (EFAB) yn 2025-26.


Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau monitro misol ariannol

- 37 Mae IGDC yn rheoli buddsoddiad cyfalaf yn ei ystâd trwy ei brosesau llywodraethu corfforaethol presennol, gan gynnwys ei broses Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- 38 Nid oes fforwm wedi'i neilltuo i gyfalaf ystadau na phroses ffurfiol ar gyfer blaenoriaethu cynlluniau. Er bod penderfynwyr yn ystyried cydymffurfiaeth, anghenion o ran seilwaith a fforddiadwyedd, nid yw'r meini prawf ar gyfer asesu cynlluniau a'u gosod mewn trefn restrol wedi'u dogfennu. O ganlyniad, ceir llai o dryloywder ynglŷn â sut y gwneir penderfyniadau cyllido.

Monitro a rheoli cronfeydd cyfalaf

- 39 Mae gan IGDC ddull priodol o fonitro a rheoli sut y mae'n gwario cronfeydd cyfalaf.
- 40 Mae'r Bwrdd yn cael adroddiad cyllid ym mhob cyfarfod. Mae'r adroddiad hwn yn darparu goruchwyliaeth ar wariant cyfalaf. Mae'r papur briffio ar gyllid sy'n cyd-fynd â'r adroddiad yn nodi'r crynodeb o berfformiad cyfalaf ac yn dangos yn glir beth yw'r rhagolwg blynyddol a'r perfformiad cyfredol ar gyfer ystadau. Mae materion yn cael eu hamlygu trwy eithriad. Fodd bynnag, nid yw'n darparu dadansoddiad o'r cynlluniau penodol a gynhwysir yn y cynllun.
- 41 Fe wnaethom adolygu'r proffil gwariant ar gyfer dyraniad dewisol IGDC yn 2024-25 a 2025-26. Canfuom fod y rhan fwyaf o wariant yn digwydd tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol (**Arddangosyn 2**).

Arddangosyn 2: cyfanswm cronolol y gwariant dewisol ar ystadau bob mis, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, ar gyfer 2024-25 a 2025-26 (canran o gyfanswm y gwariant)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau monitro misol ariannol

42 Canfu ein dadansoddiad ni hefyd fod IGDC wedi aros o fewn ei derfyn adnoddau cyfalaf, gyda gwargedion bychain yn erbyn ei ddyraniad dewisol ar gyfer yr ystâd. Fodd bynnag, cyfyngedig oedd y dystiolaeth o drefniadau ffurfiol i fonitro gwariant ar lefel cynlluniau, rheoli llithriant, neu ailddyrannu cyllid. Byddai hyn o gymorth i ailfantoli'r proffil gwariant trwy gydol y flwyddyn.

Sicrhau ystâd effeithlon a chynhyrchiol

Mae ystâd IGDC mewn cyflwr da ac yn perfformio’n dda. Mae’n defnyddio lle’n effeithlon ac yn gwella ond fe allai wneud defnydd gwell o ddata i roi cymorth i gynllunio

Cyflwr yr ystâd

43 Mae ystâd IGDC mewn cyflwr da fel rheol ac yn parhau i wella. Nid oes ganddo unrhyw risgiau o ran ôl-groniadau ond roedd adroddiad ganddo’n nodi bod canran isel o’r ystâd yn cyrraedd safon cyflwr ffisegol B. Roedd cost cyrraedd safon cyflwr ffisegol B yn is na’r cyfartaledd cenedlaethol (Arddangosyn 3).

Arddangosyn 3: oedran a chyflwr yr ystâd, o’i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, 2024-25

Dangosydd	IGDC	Sefyllfa Cymru gyfan ²
% o’r ystâd a adeiladwyd cyn 1948	0	10
% o’r ystâd a adeiladwyd cyn 1995	60	60
Cost i waredu ôl-groniad risg uchel am bob m ² o arwynebedd llawr a feddiannir (£)	0	£164.60
% o’r ystâd sy’n cyrraedd y safon cyflwr ffisegol	29	83

² Mae hefyd yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a oedd y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad.

Cost i gyrraedd safon cyflwr ffisegol B am bob m ² o arwynebedd llawr a feddiannir (£)	£203.84	£538.54
---	---------	---------

Ffynhonnell: System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS)

- 44 Fe wnaeth IGDC asesu bod cyfanswm cost cyrraedd safon cyflwr ffisegol B yn £1.2 miliwn. Tŷ Glan-yr-Afon oedd yn gyfrifol am 75% o hyn.
- 45 Ers hynny mae'r sefydliad wedi adrodd bod 90% o'i ystâd bellach yn cyrraedd safon cyflwr ffisegol B. Mae hyn yn adlewyrchu gwaith gwella a dull asesu diwygiedig yn seiliedig ar feincnodi a thybiaethau wedi'u diweddarau.

Gwybodaeth reoli gadarn

- 46 Mae IGDC yn defnyddio gwybodaeth reoli mewn modd priodol i oruchwyllo ei ystâd.
- 47 Mae'n defnyddio system desg wasanaeth i gofnodi a rheoli materion o ran yr ystâd. Mae staff yn logio materion pan hysbysir yn eu cylch ac fe gymerir camau gweithredu i'w datrys. Mae IGDC hefyd yn defnyddio dangosfwrdd ystadau i fonitro cydymffurfiaeth a gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio. Mae'r dangosfwrdd yn darparu gwybodaeth allweddol am gyflwr yr ystâd, ei defnydd, ei pherfformiad a'i chydymffurfiaeth statudol. Mae IGDC yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llai i gynllunio buddsoddiadau, neu roi cymorth i wella gwasanaethau.
- 48 Mae IGDC hefyd yn monitro meddiannaeth ei adeiladau. Mae hyn yn gyson â'i ddull ar gyfer optimeiddio defnydd o'i le. Dengys data synwryddion yn Nhŷ Glan-yr-Afon mai 41% yw meddiannaeth ar gyfartaledd, gyda meddiannaeth frig yn is na 53%. Mae meddiannaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng lloriau ac ar wahanol adegau o'r dydd a'r wythnos. Mae'r patrwm hwn yn adlewyrchu patrymau gweithio hybrid.

Cynyddu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd i'r eithaf

- 49 Mae ystâd IGDC yn perfformio'n dda o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan ar gyfer cynhyrchiant ac effeithlonrwydd gweithrediadol.

50 Mae addasrwydd swyddogaethol a'r defnydd o le yn uchel. Mae perfformiad yn y ddau faes wedi bod yn gyson yn uchel dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Hefyd, mae perfformiad ynni'n gadarnhaol, gyda defnydd isel o ynni am bob m² na chyfartaledd Cymru gyfan (**Arddangosyn 4**).

Arddangosyn 4: perfformiad yr ystâd o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, 2024-25

Dangosydd	IGDC	Sefyllfa Cymru gyfan ³
% o'r ystâd sy'n addas yn swyddogaethol	100	84
% defnydd lle	100	92
perfformiad ynni (cilowatiau)	120	367

Ffynhonnell: System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau

- 51 Fodd bynnag, mae dwy ganolfan ddata IGDC yn debygol o gyfrannu'n sylweddol at ei ddefnydd o ynni. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y data a gyflwynwyd i'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau.
- 52 Nid yw IGDC yn berchen ar unrhyw eiddo, felly nid yw wedi gwerthu unrhyw ystâd. Fodd bynnag, mae wedi dod â'r lesioedd ar ddau eiddo i ben. Dengys hyn ei fod yn cymryd camau gweithredol i leihau ôl troed ei ystadau, lleihau'r lle y mae'n ei lesio a chefnu ar safleoedd gwag.
- 53 Mewn perthynas â sefyllfa Cymru gyfan, mae gan 100% o arwynebedd llawr mewnol IGDC oleuadau LED, o'i gymharu â 45.5% yn genedlaethol.

³ Mae hefyd yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a oedd y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad.

Cefnogi amgylchedd gweithio diogel

Mae IGDC yn rheoli risgiau i staff a chydymffurfiaeth staff yn dda. Mae digwyddiadau'n isel, mae cydymffurfiaeth yn gryf ac mae materion diogelwch yn cael eu hadnabod ac fe ymatebir iddynt yn brydlon

Lleihau i'r eithaf y risg i staff

- 54 Mae gan IGDC drefniadau addas i reoli a lleihau risgiau i staff sy'n deillio o'i ystâd.
- 55 Mae digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag ystadau'n isel ac yn sefydlog. Fe hysbyswyd am rhwng pump a saith bob blwyddyn ers 2022. Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau ar safle Tŷ Glan-yr-Afon, gydag ychydig bach neu ddim o gwbl ar safleoedd eraill. Mae hyn yn awgrymu bod risgiau i staff yn isel ac yn cael eu rheoli'n dda. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai swyddfeydd yw adeiladau'r ystâd, sy'n anghlinigol o ran ei natur, ac yn fach o ran maint.
- 56 Mae IGDC yn cofnodi digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag ystadau trwy systemau ffurfiol ac yn eu huwchgyfeirio trwy brosesau iechyd a diogelwch a sicrwydd corfforaethol. Mae'n defnyddio systemau adrodd a dangosfyrddau i reoli digwyddiadau. Fodd bynnag, nid yw'n dangos yn glir ei fod yn dadansoddi data ar ddigwyddiadau i ganfod tueddiadau, lleihau risgiau, neu wella perfformiad.
- 57 Cyfyngedig yw'r trefniadau sydd gan IGDC i gasglu adborth staff ar gyflwr yr ystâd neu brofiad defnyddwyr y tu hwnt i adroddiadau sylfaenol. Nid yw'n glir pa mor gyson y mae'n adolygu'r adborth hwn nac yn gweithredu arno. Mae'r dull hwn yn gymesur â lefel y risg ond mae'n cyfyngu ar ei allu i ddangos ei fod yn defnyddio dull rhagweithiol o reoli'r risg i staff dros amser.

Sicrhau cydymffurfiaeth

- 58 Mae gan IGDC drefniadau cadarn i sicrhau bod ei ystâd yn cydymffurfio â deddfwriaeth a safonau diogelwch perthnasol.

Arddangosyn 5: arwynebedd llawr a feddiannir sy'n ateb gofynion iechyd a diogelwch statudol, o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan, 2024-25 (canran)

Dangosydd	IGDC	Sefyllfa Cymru gyfan ⁴
% yr arwynebedd llawr a feddiannir sy'n ateb gofynion iechyd a diogelwch statudol	100	87
% yr arwynebedd llawr sy'n ateb gofynion diogelwch tân statudol	100	84

Ffynhonnell: System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau

- 59 Mae IGDC yn rheoli cydymffurfiaeth trwy brosesau strwythuredig. Mae'n defnyddio dangosfyrddau ac offer monitro i dracio gofynion cynnal a chadw a statudol. Mae'r holl safleoedd yn cydymffurfio â chyfreithiau iechyd a diogelwch a diogelwch tân. Nid yw wedi wynebu unrhyw gamau gorfodi.
- 60 Mae prosesau diogelwch tân yn eu lle ac yn gweithio. Yn 2024-25, fe gwblhaodd IGDC yr holl asesiadau risg tân gofynnol. Fe adnabu'r rhain 25 o faterion. Mae wedi datrys 20 (80%). Mae'r materion sy'n weddill yn fach mewn nifer ac yn effeithio'n bennaf ar ei safleoedd yn Nhŷ Glan-yr-Afon a Technium 2. Mae hyn yn awgrymu bod materion yn lleol, nid yn gyffredinol.
- 61 Mae cydymffurfiaeth â rheolau diogelwch dŵr yn gryf. Mae IGDC wedi cwblhau'r holl asesiadau risg dŵr gofynnol. Canfu'r rhain 20 o faterion ar safle Tŷ Glan-yr-Afon, y maent i gyd wedi cael eu datrys bellach. Nid adnabwyd unrhyw faterion yn unrhyw le arall. Dengys hyn fod risgiau'n rhai safle-benodol ac yn cael eu rheoli trwy gamau gweithredu wedi'u targedu.

⁴ Mae hefyd yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a oedd y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad.


- 62 Mae'r Cyfarfod Diogelwch, iechyd a'r Amgylchedd yn cael yr Adroddiad Ystadau, Datgarboneiddio a Chydymffurfio sy'n monitro cydymffurfiaeth statudol. Mae materion yn cael eu huwchgyfeirio at y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

Rheoli gweithlu'r ystâd

Mae'r tîm ystadau'n sefydlog ac yn cael ei gefnogi'n dda, er y byddai cynllun olyniaeth yn helpu i ddiogelu gwybodaeth allweddol a sicrhau parhad

- 63 Er ei fod yn fach, mae tîm ystadau IGDC yn gymesur fwy na chyfartaledd Cymru gyfan. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd yn cyflogi 1.2 o staff cyfwerth ag amser cyflawn am bob 1,000 m² o arwynebedd llawr yr oedd yn ei feddiannu, o'i gymharu â 0.5 ledled Cymru (**Arddangosyn 6**).

Arddangosyn 6: maint y swyddogaeth ystadau am bob 1,000 m² o arwynebedd llawr a feddiannir, yn ôl pob un o gyrff y GIG ar 31 Mawrth 2025 (cyfwerth ag amser cyflawn)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata'r GIG

- 64 Fodd bynnag, mae rôl y tîm ystadau'n wahanol i rôl timau ystadau yng nghyrrff eraill y GIG. Y rheswm dros hyn yw bod y sefydliad yn gweithredu o eiddo ar les ac felly bod angen iddo gadw arbenigedd mewnol ym maes cydymffurfio, rheoli ystadau ac iechyd a diogelwch, yn hytrach nag mewn arbenigeddau ystadau technegol.
- 65 Mae IGDC yn nodi nad oes unrhyw swyddi gwag yn ei dîm ystadau. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 10.3% (ar ddiwedd mis Mawrth 2025). Mae hefyd yn nodi bod ganddo gyfradd absenoldeb oherwydd salwch isel o 0.3%, o'i gymharu â 6.8% ledled Cymru.

- 66 Nid oes gan IGDC gynllun gweithlu ar gyfer ei dîm ystadau, sy'n gyson â maint bach y tîm a'i gylch gwaith gweithrediadol ac iddo ffocws pendant. Fodd bynnag, gallai cynllun olyniaeth helpu i sicrhau parhad o ran sgiliau a gwybodaeth pe bai newidiadau staffio'n digwydd.
- 67 Mae IGDC yn sicrhau bod ei dîm ystadau'n cwblhau hyfforddiant gofynnol. Mae hefyd yn dechrau defnyddio offer digidol i roi cymorth i reoli'r ystâd. Mae systemau'n cofnodi materion ac yn rheoli gweithgarwch cydymffurfio ac mae offer dadansoddi megis monitro meddiannaeth yn helpu i oleuo penderfyniadau.

Argymhellion

68 Rydym wedi gwneud chwe argymhelliad oherwydd ein gwaith.

- A1** Dylai IGDC gryfhau ei gynllun ystadau trwy
- nodi cerrig milltir a graddfeydd amser eglur;
 - cynnwys mesurau a thargedau perfformiad;
 - adnabod rhaglen wedi'i blaenoriaethu o weithgareddau sy'n ymwneud ag ystadau; a
 - meintioli goblygiadau ariannol, gan greu cysylltiadau mwy eglur â'r adnoddau cyfalaf sydd ar gael (**paragraff 14**).

- A2** Dylai IGDC sefydlu cofrestr risgiau gweithrediadol ffurfiol ar gyfer ystadau ac adolygu risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd yn rheolaidd trwy'r fframwaith llywodraethu gweithrediadol presennol (**paragraffau 33 i 34**).

- A3** Dylai IGDC ddogfennu ei drefniadau ar gyfer blaenoriaethu buddsoddi cyfalaf yn ei ystâd a nodi meini prawf eglur ar gyfer asesu cynlluniau, eu gosod mewn trefn restrol a'u cymeradwyo. Dylai hyn gynnwys gwneud mwy o ddefnydd o'r data ar yr ystâd y mae'n ei gasglu i oleuo penderfyniadau buddsoddi (**paragraff 38**).

A4 Dylai IGDC gyflwyno trefn fwy ffurfiol i fonitro cynlluniau ystâd unigol, gan gynnwys trefniadau i adnabod llithriant, ailbroffilio gwariant ac ailddyrannu cyllid lle y bo'n briodol (**paragraff 42**).

A5 Dylai IGDC gyflwyno trefniadau mwy systemig ar gyfer casglu adborth defnyddwyr ar ei ystâd ac ymateb iddo (**paragraff 57**).

A6 Dylai IGDC ddatblygu cynllun olyniaeth ar gyfer y tîm ystadau (**paragraff 66**).

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom fwrw golwg ar y meysydd canlynol, fel y maent yn berthnasol i ystadau, yn ystod y cyfnod rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2026:

- cynllunio strategol;
- trefniadau llywodraethu;
- defnyddio adnoddau ariannol;
- cynhyrchiant ac effeithlonrwydd yr ystâd;
- goblygiadau ar gyfer diogelwch staff; a
- rheoli'r gweithlu.

Ni wnaethom fwrw golwg ar:

- brosiectau ystadau mawr a ariennir (neu a allai gael eu hariannu) trwy Raglen Cyfalaf Iechyd Cymru Gyfan;
- rheoli ystadau'n weithrediadol, gan gynnwys rheoli ystâd sydd ar les; a
- gwasanaethau 'rheoli cyfleusterau'n feddal' megis gwasanaethau glanhau neu ddiogelwch, sydd hefyd yn allweddol i gefnogi ystâd sy'n addas ar gyfer y diben.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Fe ymdriniodd ein harchwiliad â'r cwestiynau canlynol:

- A oes gan gorff y GIG ddull cynllunio eglur ar gyfer ei ystâd yn y tymor canolig a hwy?
- A oes gan gorff y GIG drefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer rheoli ystadau?

- A yw corff y GIG yn defnyddio'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddo ar gyfer ystadau mewn modd priodol?
- A oes gan gorff y GIG ystâd effeithlon a chynhyrchiol?
- A yw ystâd y GIG yn cefnogi profiad staff?
- A oes gan gorff y GIG drefniadau effeithiol i reoli gweithlu ei ystâd?

Meini prawf

Fe wnaethom asesu dull IGDC yn erbyn meini prawf archwilio a siapiwyd gan:

- Fframweithiau cynllunio GIG Cymru a dogfennau cynllunio perthnasol eraill gan GIG Cymru, gan gynnwys Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021-30;
- deddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cydraddoldeb Act 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED);
- canllawiau perthnasol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG;
- gwaith archwilio blaenorol ar reoli ystadau'r GIG.

Dulliau

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:

- papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau;
- dogfennau llywodraethu a fframweithiau adrodd allweddol ar gyfer pwyllgorau a grwpiau gweithrediadol perthnasol, gan gynnwys trefniadau rheoli risgiau corfforaethol, trefniadau archwilio a sicrwydd a strwythurau adrodd ar gydymffurfiaeth;
- dogfennau cynllunio corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig, cynlluniau blynyddol ac elfennau perthnasol o strategaethau sefydliadol ehangach sy'n gysylltiedig ag ystadau;
- dogfennau rheoli risg allweddol gan gynnwys y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd mewn perthynas â seilwaith, cyflwr yr ystâd, cydymffurfio a gwydnwch;

- gwybodaeth weithrediadol berthnasol ac adroddiadau rheoli perthnasol, gan gynnwys dangosfyrddau cydymffurfio, dadansoddiadau o ddefnydd, adroddiadau ar berfformiad ystadau a gwybodaeth am fonitro cyfalaf;
- pecynnau data a deunyddiau dadansoddi lleol, gan gynnwys datganiadau ystadau, setiau data defnydd a dadansoddiadau ategol.

Fe gyfwelom ni â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd;
- Pennaeth Ystadau a Chydymffurfio;
- Uwch staff gweithrediadol â chyfrifoldeb am gydymffurfio, iechyd a diogelwch a swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag ystadau.

Fe gynhaliom ni grŵp ffocws bach gyda'r:

- Arweinydd Diogelwch Tân/Pennaeth Cynnal a Chadw'r Ystâd;
- Arweinydd Iechyd a Diogelwch/Arweinydd Diogelwch Dŵr.

Fe wnaethom adolygu data cenedlaethol sydd ar gael o'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS), datganiadau monitro ariannol misol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru a data lleol a ddarparwyd ar ein cyfer gan IGDC. Nid ydym wedi archwilio'r data o'r ffynonellau hyn.

2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

Term	Disgrifiad
Addas yn swyddogaethol	Y ganran o arwynebedd llawr a feddiannir sy'n cyrraedd safon Cyflwr B <u>Cod Ystadau Cymru 2018</u> .
Arwynebedd llawr a feddiannir	Cyfanswm arwynebedd llawr adeiladau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau'r GIG, gan gynnwys lleoedd a berchnogir, sydd ar les, neu a ddefnyddir dan gytundebau.
Bwrdd Cyngori ar Ystadau a Chyfleusterau (EFAB)	Rhaglen o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru a wnaeth gefnogi gwelliannau wedi'u targedu i ystadau ar draws GIG Cymru, gan gynnwys seilwaith, datgarboneiddio a diogelwch tân. Fe'i disodlwyd gan y Gronfa Ystadau wedi'i Thargedu (TEF) yn 2025-26.
<u>Cod Ystadau Cymru 2018</u>	Mae'n rhoi cyngor manwl ynghylch sut i reoli tir ac adeiladau a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd.
Cronfa Ystadau wedi'i Thargedu	Cronfa gyfalaf gan Lywodraeth Cymru sy'n targedu risgiau sy'n gysylltiedig ag ystadau y rhoddir blaenoriaeth uchel iddynt yn y GIG, gan gynnwys diogelwch, cydymffurfio a gwydnwch. Mae'n darparu £80 miliwn (2025-27), gyda chyrrff y GIG yn cyfrannu 30%.
Cyfalaf dewisol	Arian y gall sefydliad ei ddyrannu yn ôl ei ddisgresiwn ei hun.

Term	Disgrifiad
Cyflwr ffisegol B	Fe'i diffinnir gan <u>God Ystadau Cymru 2018</u> fel adeilad sydd islaw safon dderbyniol, neu sy'n annerbyniol yn ei gyflwr cyfredol ac yn aml angen ei amnewid yn llawn.
Defnydd o le	Y ganran o arwynebedd llawr a feddiannir sy'n cael ei defnyddio fel a ddiffinnir yng <u>Nghod Ystadau Cymru 2018</u> .
Gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni	Mesur o'r buddsoddiad y mae ei angen i adfer adeilad i safon benodedig, yn seiliedig ar asesiad risg.
Ôl-groniad risg uchel	Materion y mae angen gweithredu arnynt ar frys i atal methiant difrifol, sefyllfa a fydd yn tarfu'n fawr ar wasanaethau, neu risgiau i ddiogelwch a allai beri niwed neu arwain at gamau cyfreithiol.
System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS)	Rhaglen i Gymru gyfan a ddefnyddir i gasglu data ac adrodd am ddata ar ystadau a chyfleusterau'r GIG. Mae o gymorth i fonitro, meincnodi a gwella perfformiad ac mae'n goleuo prosesau cynllunio a phenderfynu.

3 Ymateb y rheolwyr

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
A1	Dylai IGDC gryfhau ei gynllun ystadau trwy • nodi cerrig milltir a graddfeydd amser eglur; • cynnwys mesurau a thargedau perfformiad; • adnabod rhaglen wedi'i blaenoriaethu o weithgareddau sy'n ymwneud ag ystadau; a • meintioli goblygiadau ariannol, gan greu cysylltiadau mwy eglur â'r adnoddau cyfalaf sydd ar gael.	Bydd IGDC yn adolygu ac yn diweddarau ei Gynllun Ystadau, fel ei fod yn cynnwys cerrig milltir a thargedau, gan gynnwys mesurau perfformiad, a fydd yn cynnwys rhaglen o weithgarwch a reolir gan adnoddau cyfalaf	Diwedd mis Mawrth 2027	Pennaeth Ystadau a Chydymffurfio

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
A2	Dylai IGDC sefydlu cofrestr risgiau gweithrediadol ffurfiol ar gyfer ystadau ac adolygu risgiau sy'n gysylltiedig â'r ystâd yn rheolaidd trwy'r fframwaith llywodraethu gweithrediadol presennol	Mae Ystadau a Chydymffurfio wedi'i sefydlu fel adran o fewn rhaniad y Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol yn Rheoli Fy Risgiau. Bydd y Gofrestr Risgiau ar gyfer Ystadau a Chydymffurfio yn cael ei hadolygu'n fisol yng Nghyfarfodydd UDA y Gyfarwyddiaeth a phob deufis gan Grŵp Datblygu Ystadau IGDC.	Diwedd mis Medi 2026	Arweinydd Cydymffurfio a Phrosiectau Gweithrediadol Ystadau
A3	Dylai IGDC ddogfennu ei drefniadau ar gyfer blaenoriaethu buddsoddi cyfalaf yn ei ystâd a nodi meini prawf eglur ar gyfer asesu cynlluniau, eu gosod mewn trefn restrol a'u cymeradwyo. Dylai hyn gynnwys gwneud mwy o ddefnydd o'r data ar yr ystâd y mae'n ei gasglu i oleuo penderfyniadau buddsoddi.	Bydd Fframwaith Blaenoriaethu Buddsoddiadau Cyfalaf mewn Ystadau'n cael ei ddatblygu a'i roi ar waith i ddarparu dull cyson a thryloyw o asesu cynlluniau cyfalaf ystadau, eu rhoi mewn trefn restrol a'u cymeradwyo. Bydd y fframwaith yn sefydlu meini prawf eglur i'w defnyddio i werthuso'r holl gynigion buddsoddi, gan gynnwys gofynion cydymffurfio statudol a rheoleiddiol, risgiau i iechyd a diogelwch, parhad	Diwedd mis Tachwedd 2026	Uwch Swyddog Ystadau

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
		busnes, effaith weithrediadol, blaenoriaethau o ran gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, amcanion cynaliadwyedd, manteision i wasanaethau, a gwerth am arian.		
A4	Dylai IGDC gyflwyno trefn fwy ffurfiol i fonitro cynlluniau ystâd unigol, gan gynnwys trefniadau i adnabod llithriant, ailbroffilio gwariant ac ailddyrannu cyllid lle y bo'n briodol.	Bydd fframwaith monitro cynlluniau wedi'i ffurfioli'n fwy yn cael ei roi ar waith (Offeryn Cynllunio Ystadau) a byddir yn adrodd arno yn y Grŵp Datblygu Ystadau, gan ymgorffori adolygiad rheolaidd o gerrig milltir rhaglenni, proffiliau gwariant, risgiau, a dyddiadau cwblhau a ragwelir. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl adnabod llithriant mewn prosiectau ar adeg gynnar ac gwneud materion sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar gyflawni neu wariant cyfalaf yn fwy gweladwy.	Diwedd mis Tachwedd 2026	Arweinydd Cydymffurfio a Phrosiectau Gweithrediadol Ystadau

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau	Swyddog sy'n gyfrifol
A5	Dylai IGDC gyflwyno trefniadau mwy systemig ar gyfer casglu adborth defnyddwyr ar ei ystâd ac ymateb iddo.	Bydd Adborth Defnyddwyr yn cael ei grynhoi trwy ServicePoint a'i gyflwyno i gyfarfodydd y Grŵp Datblygu Ystadau yn y dyfodol.	Diwedd mis Medi 2026	Arweinydd Cydymffurfio a Phrosiectau Gweithrediadol Ystadau
A6	Dylai IGDC ddatblygu cynllun olyniaeth ar gyfer y tîm ystadau.	Mae llwybrau datblygu yn eu lle o fewn y Tîm Ystadau a byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd mewn Adolygiadau o Ddatblygiad Personol yn y dyfodol i sicrhau bod rolau hanfodol yn gallu cael eu cyflawni pe bai swyddi'n dod yn wag. Fel rhan o weithgarwch cynllunio strategol tymor hwy IGDC ar gyfer y gweithlu, bydd y Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol yn sicrhau bod yr holl swyddogaethau gan gynnwys Ystadau a Chydymffurfio'n cael eu hystyried.	Diwedd mis Medi 2026	Pennaeth Ystadau a Chydymffurfio

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.